

Tasg 1:

Y thema dewiswyd i gyflwyno at grŵp o ddisgyblion yw 'Yr Ardd.' Dewiswyd y thema 'Yr Ardd' gan ei fod yn apelio at fechgyn a merched ac yn hybu iechyd a lles plant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae modd cysylltu amrywiaeth o weithgareddau a gwersi gyda'r thema yma mewn modd trawsgwricwlaidd. Yn flaenorol i'r wers hyn cymryd lle, bydd y stori 'Super Ab' gan Julia Donaldson yn cael ei ddarllen i ddosbarth o 29 disgybl ym mlwyddyn 1.

Yn ystod cyflwyniad y gweithgareddau, cyflwynwyd llythyr i'r plant o Julia Donaldson, awdur stori 'Super Ab' yn esbonio bod ganddi broblem. Y broblem hon fydd ei fod wedi coll ei chopi hi o'r llyfr ac wedi anghofio trefn y stori. Bydd y llythyr hwn yn cael ei ddefnyddio fel sbardun ac yn annog y disgyblion i ymgeisio helpu Julia Donaldson trwy drefnu stori Super Ab. Yn ystod cyflwyniad y wers, bydd angen i'r disgyblion trefnu'r stori yn ymarferol trwy drafod beth yw cynnwys lluniau o'r stori a'r drefn.

Un o'r gweithgareddau bydd trefnu'r stori a'i chysylltu â brawddegau am y digwyddiadau gwahanol o fewn y stori. I ddechrau'r gweithgaredd hon bydd angen i'r disgyblion i sganio codau QR ar iPad i ddarganfod amrywiaeth o luniau o stori 'Super Ab.' Yna, bydd angen i'r disgyblion trafod beth oedd yn digwydd yn y llun penodol a pha frawddeg oedd yn cysylltu â'r llun orau. Bydd angen i'r disgyblion ehangu ar eu sgiliau llafar trwy gyfathrebu a gweithio fel grŵp i ddarllen y brawddegau gwahanol. Yn ail, bydd angen i'r disgyblion o fewn y grwpiau anghenion dysgu ychwanegol a gallu isel torri allan lluniau o'r stori a'i threfnu wedyn rhifo o 1 i 6. Bydd angen i'r grŵp gallu canolog a'r grŵp gallu uchel i dorri allan y lluniau a darllen brawddegau i gysylltu'r frawddeg a'r llun, ac yna gosod y lluniau a'r brawddegau yn y drefn gywir.

Yr ail weithgaredd bydd gweithgaredd amser. Bydd angen i'r disgyblion paru lluniau o glochau analog a digidol gyda'r amser yn ysgrifenedig. Bydd y grŵp anghenion dysgu ychwanegol a'r grŵp gallu isel yn derbyn cymorth o'r cynorthwydd wrth ddarllen yr amseroedd ysgrifenedig. Yna, bydd angen i'r disgyblion adnabod amseroedd gwahanol ar luniau o glochau analog, gan gynnwys o'r gloch a hanner awr wedi, ac wedyn ysgrifennu'r amser cywir o dan y cloc.

Tasg 2:

<http://www.youtube.com/watch?v=Nk4gl3Av1IA>

Tasg 3:

Wrth edrych ar y fideo yn nhasg 2, mae modd gweld llythyr yn cael ei ddarllen yn ystod cyflwyniad y wers. Cyn agor y llythyr, trafodwyd priodweddau llythyr/amlen llythyr gyda'r disgyblion. Noda yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd bod angen i ddisgyblion blwyddyn 1 gallu 'adnabod nodweddion testun' (Llywodraeth Cymru, 2016). Trwy holi cwestiynau i'r disgyblion am yr amlen a'r llythyr, datblygwyd y sgil hon. Pan ofynnwyd cwestiwn i'r disgyblion, roedd camgymeriad treiglo. Yn hytrach na gofyn "Beth sydd ar flaen yr amlen?" gofynnwyd "Beth sydd ar blaen yr amlen?" Mae angen treiglo'n feddal ar ôl arddodiad felly dyle'r gair 'blaen' wedi treiglo i 'flaen' ar ôl 'ar.' Pan ofynnwyd i'r disgyblion beth sydd ar flaen yr amlen, atebodd un gan ddweud 'address.' I sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o beth yw'r gair Cymraeg am 'address', gofynnwyd i ddisgybl arall am yr air Cymraeg, ac atebodd yn gywir gan ddweud 'cyfeiriad.'

Gwelwyd fod y dull o ddefnyddio sbardun, llythyr yn yr enghraifft yma, yn ffordd lwyddiannus iawn o ddal sylw'r disgyblion ac i gadw ei ddiddordeb trwy gydol y cyflwyniad a'r gweithgareddau yn ymwneud a'r sbardun. Ar ôl darllen y llythyr, gofynnwyd i'r disgyblion "Pwy yw Julia Donaldson?" Atebodd un ferch gan ddweud "Y person wnaeth ysgrifennu llyfyr Super Ab." I sicrhau bod y disgyblion yn deall ystyr hwn, gofynnwyd "Beth ydyn ni'n galw pobl sy'n ysgrifennu storiâu?" ac atebodd un disgybl yn gywir gan ddweud "awdur." I atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o hyn, roedd angen ail-adrodd bod y llythyr wedi ei ysgrifennu gan awdur stori Super Ab.

I sicrhau bod y disgyblion yn cofio beth oedd problem Julia Donaldson yn y llythyr, dewiswyd i amrywio'r ffurf oedd y dysgwyr yn ateb cwestiynau. Un ffordd o amrywio hyn yw yn hytrach na gofyn i'r disgyblion i godi ei llaw, mae modd gofyn iddyn nhw i roi dwylo ar eu pen, neu bys ar eu trwyn ac yn y blaen. Mae amrywio'r ffurf mae'r disgyblion yn ateb yn helpu i gadw eu diddordeb ac yn dangos os ydyn nhw'n canolbwyntio neu beidio.

Wrth i rai o'r disgyblion dod i flaen y dosbarth i gymryd rhan yn y dasg ymarferol, tafodwyd trefn wahanol y stori gan ddefnyddio geirfa fel 'yn gyntaf,' 'yn ail,' 'nesaf.' Noda yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd bod angen i ddisgyblion blwyddyn 1 gallu 'ail-ddweud digwyddiadau o ddarn o naratif yn y drefn gywir' (Llywodraeth Cymru, 2016). Trwy dwyn i gof trefn stori 'Super Ab,' mae'r disgyblion yn datblygu'r sgil yma. Wrth i unigolion

penderfynu ar ba lun oedd yn mynd yma mha drefn, gofynnwyd i weddill y dosbarth os oedden nhw'n gywir fel strategaeth asesu ar gyfer dysgu. Pan ofynnwyd i'r dosbarth "Ydy yn gywir?" atebodd rhai disgyblion "ydyn" yn hytrach nag "ydy." I sicrhau bod y disgyblion yn deall bod y ffordd gywir i ateb y cwestiwn yw "ydy," pwysleisiwyd y gair pob tro gofynnwyd y cwestiwn. I atgyfnerthu dealltwriaeth y plant, gallaf wedi gofyn i'r disgyblion i ail-adrodd y gair "ydy."

Yn ystod y fideo mae modd gweld un gweithgaredd, sef tasg trefnu Super Ab gan ddefnyddio codau QR ac yna torri allan a threfnu lluniau o'r stori. Mae'r gweithgaredd yma wedi ei gwahaniaethu dwywaith: unwaith ar gyfer grŵp gallu uchel a grŵp gallu canolig y dosbarth, a'r llall ar gyfer grŵp gallu isel a grŵp anghenion dysgu ychwanegol y dosbarth. Mae gwahaniaethu tasgau yn hynod o bwysig i sicrhau bod disgyblion medru deall y gwaith a llwyddo i gwblhau'r tasgau ond hefyd yn cael ei herio (VanTassel-Baska, 2012). Yn y fideo mae modd gweld y dasg gyntaf yn cael ei gyflawni gyda'r grŵp gallu canolig, a'r ail dasg yn cael ei gyflawni gan y grŵp gallu isel a'r grŵp anghenion dysgu ychwanegol wedi cyfuno.

Yn ystod tasg ffocws trefnu stori 'Super Ab,' roedd y disgyblion yn trafod beth oedden nhw'n gwneud yn ogystal â thrafod trefn y stori. Dyle disgyblion gallu ym mlwyddyn 1 gallu 'siarad am bethau y maent wedi'u llunio neu wedi'u gwneud, gan esbonio'r broses' (Llywodraeth Cymru, 2016). Yn ystod y trafodaethau yma, defnyddiodd rhai o'r disgyblion geiriau Saesneg yng nghanol brawddegau. Enghraifft o hwn yw "Mae Super Ab yn helpu so mae'r broga ddim yn mynd yn fflat ar y llawr." Trwy ailadrodd y frawddeg ond yn y ffordd gywir, mae modd i'r disgybl adnabod ei bod nhw wedi gwneud camgymeriad ac i ddysgu sut i strwythuro'r frawddeg yn gywir. Enghraifft arall yw pan ddywedodd unigolyn "instead of gadael y broga i mynd yn fflat." Mae cywiro'r disgyblion yn helpu nhw i ddeall eu camgymeriadau.

Ymhellach ymlaen yn y dasg ffocws, trafodwyd pa ansoddeiriau gall cael ei ddefnyddio i ddisgrifio cymeriadau gwahanol o stori 'Super Ab.' Atgyfnertha hyn gyda dysgu blaenorol i sicrhau dealltwriaeth y disgyblion o beth yw ansoddeiriau. Trwy adrodd "geiriau sy'n disgrifio" bydd y plant yn dysgu ac yn cofio ystyr ansoddeiriau. Llwyddodd y disgyblion i ddefnyddio amrywiaeth o ansoddeiriau i ddisgrifio Super Ab a'r dewin. Cyflwynwyd i'r dysgwyr bod angen treiglo'n feddal wrth ddefnyddio ansoddair ar ôl y gair "yn." Er

enghraifft yn hytrach na disgrfio Super Ab fel “yn caredig,” mae angen dweud “yn garedig.” Noda yn y fframwaith llythrennedd dyle disgyblion ym mlwyddyn 1 dechrau “dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau’n newid ar ddechrau geiriau, e.e. y ferch.” Wrth fodelu sut i dreiglo’n gywir, bydd y dysgwyr yn dod yn gyfarwydd a chlywed treigladau yn aml ac yn dechrau defnyddio nhw eu hunain wrth siarad a chyfathrebu.

Yn ystod y dasg ffocws gyda’r grŵp gallu isel a’r grŵp anghenion dysgu ychwanegol mae modd gweld bod mwy o eirfa Saesneg yn cael ei ddefnyddio gan y plant yn ystod trafodaethau am y dasg. I helpu’r disgyblion i gywiro ei hunain er mwyn dysgu a defnyddio’r geiriau Cymraeg priodol, cafodd y frawddeg ei ail-adrodd gan ddweud llythyren gyntaf y gair Cymraeg yn hytrach na Saesneg fel bod y disgybl yn gallu gorffen y frawddeg gan ddefnyddio’r gair Cymraeg. Pan ofynnwyd i’r disgybl “Ble mae Super Ab?” atebodd un o’r disgyblion trwy ddweud “yn y cave.” Ymatebwyd trwy ddweud “yn yr o” cyn i’r unigolyn cofio’r gair Cymraeg ac ateb yn frwdfrydig gan ddweud “ogof.” Ymhellach, pan ofynnwyd i ddisgybl beth sy’n digwydd yn y llun, atebodd gan ddweud “Mae’r dewin wedi catcho Super Ab.” Unwaith iddi dderbyn cliw i’r gair Cymraeg, “Mae’r dewin wedi d,” sylweddolodd ei fod wedi gwneud camgymeriad a chywirodd ei hunain trwy ddweud “dal.” Noda Estyn (2013) bod angen rhoi ‘pwyslais penodol ar ddatblygu’r Gymraeg trwy ddulliau trochi ar draws holl feysydd dysgu’r Cyfnod Sylfaen, beth bynnag fo iaith gartref y plentyn.’

Ar y cyfan teimlaf yn hapus gyda dealltwriaeth y plant o’r gweithgareddau a sut ymatebodd nhw yn ystod y cyflwyniad a’r tasgau ffocws. Mae angen mwy o bwyslais ar eiriau aml ddefnydd Cymraeg o fewn y dosbarth i ehangu geirfa’r disgyblion a lleihau’r nifer o eiriau Saesneg sy’n cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr. Roedd cyflwyniad y wers a’r gweithgareddau yn drawsgwricwlaidd, sy’n bwysig iawn o fewn y byd addysg cyfoes. Argymhella Donaldson (tud. 40, 2015) ‘dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd i’r holl athrawon a phobl sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.’

Gweler y cynllun gwers isod:

Enw'r Hyfforddai		Alice Liney	Cyfeirnod y sesiwn:	Trefnu stori Super Ab / Amser	Dyddiad:	22/5/19	Dosbarth:	Blwyddyn 1	Cynllun Ffocws y Cyfnod Sylfaen 2d
Targed(au) Hyfforddi Personol		Rheolaeth dosbarth (S3.3)			Nifer y dysgwyr:	29	Oed:	5-6	
Nodau/bwriadau dysgu:	- Gallu adrodd trefn stori 'Super Ab.' - Dysgu sut i ddarllen cloc analog.		Meini prawf llwyddiant:	- Trefnu lluniau o stori Super Ab. - Disgrifio beth sy'n digwydd yn y stori. - Llwyddo i ddarllen 'o'r gloch a hanner awr wedi' ar gloc analog		Ateb anghenion y dysgwyr:	Riley (awtistiaeth): Angen cadw diddordeb trwy gydol y dasg.		
Tasgau cyflwyniad/diweddsglo			Prif weithgareddau <i>Dylid defnyddio y ffurflen hon mewn perthynas â Ffurflen 2C</i>		Adnoddau/ Geirfa Allweddol		Asesu ar gyfer Dysgu (cyfleoedd a'r strategaethau a ddefnyddiwyd)		
Cyflwyniad – 9.15			Tasg a gynlluniwyd gan yr hyfforddai: Grŵp Coch a Glas – defnyddio codau QR i gysylltu brawddeg â llun o'r stori. Torri allan a threfnu lluniau o stori Super Ab gan cysylltu'r lluniau gyda brawddegau. Grŵp Melyn/Gwyrdd – Defnyddio codau QR i gysylltu brawddeg â llun o'r stori. ymarfer sgiliau torri a threfnu stori Super Ab o 1 i 6.		Adnoddau: - iPad - Codau QR - Tafenni gwaith - Cloc plastig - Amserydd rhyngweithiol Geirfa Allweddol: - Trefnu - Super Ab - Stori - Amser - O'r gloch - Hanner awr wedi		Ffyn loliopop i ddewis disgyblion i ateb cwestiynau. - Bodiau i fyny/canol/lawr i ddangos dealltwriaeth o'r dasg. - Lola'r Lindys i asesu ar ddiwedd y dasg.		
Diweddsglo – 9.50yb			Tasgau ychwanegol i'w cyflawni gydag oedolion: Gêm paru clociau analog a digidol fel grŵp. Tafenni gwaith amser trafod a datrys – torri a gludo'r clociau a paru gyda'r ysgrifennu.						
			Cyfleoedd i ddysgu'n annibynnol: Dilyn cyfarwyddiadau wrth ddefnyddio mat beebot 'yr ardd.' Trafod cwestiynau ar yr amrywiaeth o anifeiliaid gwahanol. Meddwl am gyfarwyddiadau eu hun.						
Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod a sgiliau) Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: arbrofi â chyfleoedd dysgu newydd, gan gynnwys TGCh									
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: - roi digwyddiadau, trefniadau arferol a newidiadau mewn trefn - adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd a geir yn yr awyr agored									
Llythrennedd (FfLIRh) Llinyn – Darllen: - chwilio am gliwiau yn y testun er mwyn deall gwybodaeth - ail-ddweud digwyddiadau o ddarn o naratif yn y drefn gywir - dwyn i gof fanylion o destunau					Rhifedd (FfLIRh) Llinyn – Defnyddio sgiliau mesur: - defnyddio'r cysyniad o amser mewn perthynas a'u gweithgareddau - defnyddio unedau amser safonol i ddarllen faint o'r gloch yw hi ar glociau analog a chlociau digidol 12 awr				
FfCD - dilyn cyfres o gamau i ddatrys problem - creu a chofnodi cyfarwyddiadau - newid cyfarwyddiadau i gyflawni canlyniad gwahanol			Meddwl		ADCDF		YCC		

Rhestr gyfeiriadau

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. [e-lyfr] tud.40. Ar gael yn:
<https://gwedhill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>
[Darllenwyd 28 Mai 2019].

Estyn (2013). *Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen*. [e-lyfr] Ar gael yn:
<https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Datblygu%27r%20Gymraeg%20yn%20y%20Cyfnod%20Sylfaen%20-%20lonawr%202013.pdf> [Darllenwyd 27 Mai 2019].

Llywodraeth Cymru (2016). *Dysgu Cymru*. [ar-lein] Learning.gov.wales. Ar gael yn:
<https://learning.gov.wales/resources/browse-all/nlnf/framework?lang=cy> [Darllenwyd 28 Mai 2019].

VanTassel-Baska, J. (2012). Analyzing Differentiation in the Classroom. *Gifted Child Today*, 35(1), pp.42-48.